

Croeso i CCYSAGauC- Ian Budd

Hoffwn eich croesawu chi i gyd yma'r bore yma i gyfarfod tymor yr haf Cymdeithas CYSAGau Cymru. Ian Budd ydw i a fi yw'r Prif Swyddog Addysg yma yn Sir y Fflint. Rwy'n Is Gadeirydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru yn dilyn tair blynedd yn Gadeirydd ac yn Gyfarwyddwr Arweiniol i GwE, Consortiwm Addysg Gogledd Cymru.

`Does dim dwywaith fod y newidiadau i'r gwasanaethau gwella ysgolion ar draws Cymru wedi cael effaith ar y ffordd y mae CYSAGau'n gallu ymgymryd â'u gwaith o fonitro, herio a chefnogi Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd.

Mae digon o gyfleoedd i bartneriaid ffydd fywiocau ac adnewyddu eu gallu a'u hymgysylltiad â gwaith gwella ysgolion ac â'u partneriaethau ehangach gyda Llywodraeth Cymru a Theulu Llywodraeth Leol.

Mae'r newidiadau i'r gwasanaethau gwella ysgolion fel rhan o'r model cenedlaethol yn rhoi sylw penodol hefyd (yn deillio o ddysgu rhyngwladol ac ymchwil i arfer effeithiol) i hyrwyddo rhwydweithiau rhwng ysgolion a'i gilydd, yn cynnwys rhwydweithiau arweinwyr cwricwlwm a chymorth gwella unigryw cymheiriaid, yn cynnwys mentora a hyfforddi mewn ysgolion ac ar draws ysgolion.

Mae'r agenda heddiw yn hyrwyddo arfer da o ran Addoli ar y Cyd. Ceir cyfle i drafod sut y gall ein pobl ifanc weithio gyda chymunedau ffydd. Ceir cyfle hefyd i ystyried yr argymhellion sy'n dod o ddogfen draws-Ewropeaidd sy'n hybu arfer da mewn Addysg Grefyddol.

Mae Addysg Grefyddol yn sail i nifer o werthoedd sy'n galluogi pobl ifanc i ddod yn ddysgwyr gydol oes. Mae'n galluogi'r dysgwyr i feddwl am gwestiynau pwysig fel bywyd a'n bodolaeth. Mae ar ddysgwyr angen y gallu i archwilio a rhesymoli eu credoau nhw eu hunain a rhai pobl eraill am bob math o faterion. Yn ein byd sy'n mynd yn fwyfwy aml ddiwylliant, mae angen i ni i gyd geisio dangos cydymdeimlad, tosturi a goddefgarwch tra'n aros yn ffyddlon i'n credoau a'n treftadaeth ein hunain. Mae dysgwyr gydol oes yn ennill sgiliau, boed yn rhai academiaidd, personol neu gymdeithasol, ac mae'r rhain i gyd i'w cael yn y dosbarth Addysg Grefyddol.

O ran byd addysg, rydym yn byw mewn amser cyffrous, newidiol a heriol. Amser lle bydd arfer da a datblygiad athro yn cael eu gweld a'u lledaenu ar draws dosbarthiadau. Dosbarthiadau mwy agored, a diwylliant mwy agored lle'r ydym i gyd yn cydnabod ein bod yn ddysgwyr, gyda dysgu i'r rannu a dysgu i'w gaffael gan eraill. Mae'r cyfarfod hwn yn cael y fraint o ddod ag athrawon, cynghorwyr lleol a chynrychiolwyr ffydd at ei gilydd i herio, dysgu a chefnogi'r naill a'r llall. Wrth i chi wrando a meddwl am y materion a godir yn y cyflwyniadau heddiw, rwy'n gobeithio y byddwch yn gallu mynd â hyn yn ôl i'ch ardaloedd eich hunain er mwyn cyfoethogi bywydau'n pobl ifanc a gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu sy'n digwydd yn ein hysgolion bob dydd.